



Pris: 50c

Papur Pawb

Ebrill 2016Rhif 428



Tudalen 12: Niall Coleridge yn sgorio'r drydedd gôl gydag ergyd nerthol.

tud 3
Pobl a Phethe

tud 5
**Canlyniadau Eisteddfod
Ysgol Tal-y-bont**

tud 9
Busnesa

tud 12
Ymlaen i'r Ffeinal

Pwy sydd â phen PC Pat?



Mae diogelwch plant y pentref yn hollbwysig

Erbyn hyn, bydd llawer ohonom wedi gweld plismon newydd yn ein hardal. Mae PC Pat wedi gweithio'n galed ers sawl mis oer a gwlyb i geisio perswadio gyrwyr i arafu wrth nesáu at Dre Taliesin - ond mae'n amlwg nad pawb sy'n cymeradwyo'i gwaith.

Mae PC Pat yn gweithio ar bwys rhan o'r briffordd y mae pentrefwyr lleol yn ei disgrifio fel un 'hynod gyflym a pheryglus'. Yn ôl Shelley ac Anthony Foulkes, Voelas Villa, a'u cymdogion Mr & Mrs Morgan, Pencae Villa a ddechreuodd yr ymgyrch, mae cerbydau yn cyflymu wrth adael Taliesin ac yn arafu'n llawer rhy hwyr wrth ddod i mewn i'r pentref. Wrth i ni dynnu'r llun hwn ar gyfer Papur Pawb, gwelwyd dau gar yn gyrru'n llawer rhy gyflym ac yn goddiweddyd ceir eraill er ei bod hi'n amlwg bod llawer o blant y pentref ar ochr y ffordd.

A diogelwch trigolion y pentref sy'n bennaf wrth wraidd yr ymgyrch frwd hon i sicrhau mesurau i arafu traffig 'cyn ei bod hi'n rhy hwyr'. Yn ogystal â chysylltu â'r Aelod Seneddol, cwmni loriau enwog, swyddogion Llywodraeth Cymru, y Cyngor Sir

a'r asiantaeth prif-ffyrdd, fe benderfynon nhw osod y plismon ffug cyn y Nadolig ac maent yn credu'n gryf ei bod yn llwyddo i arafu'r traffig.

Er mawr siom i'r ymgyrchwyr â'r plant mae PC Pat wedi cael ei dwyn ddwywaith ers hynny yn ogystal â chael ei symud gan y Cyngor oherwydd ei bod yn eu barn nhw yn tynnu sylw gyrwyr. Ac ar ben y cyfan, nos Sadwrn, y cyntaf o Ebrill, cafodd PC Pat ei difrodi'n sylweddol a cholli ei phen eto a hynny wythnos yn unig wedi dwy ddamwain erchyll o fewn tafliad carreg. Mae Shelley a'r teulu wedi eu synnu a'u siomi'n fawr fod rhywun yn gwneud y fath beth yn fwriadol.

Fel y clywsom yn y rhifyn diwethaf o Bapur Pawb, mae'n cynghorydd lleol wedi galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu'n fuan.

Wrth i Bapur Pawb fynd i'r wasg mae'r pentrefwyr yn lansio ymgyrch newydd gyda'r heddlu. Cadwch eich llygaid ar agor a chofiwch arafu!



PC Pat wedi colli ei phen

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins (01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com
Cysyllter â golygyddion y mis

Tynnu lluniau:

GOHEBYDDION LLEOL
Tal-y-bont: Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont 832592
Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont 832438
Maes-y-deri: Karren Roberts 07800 806578
Parsel Henllys: Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont 832498
Bont-goch: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Tre Taliesin: Sian Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin 832230
Tre'r-ddôl: Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl (01654) 781260
Michelle James, 4 Maes Clettwr, Tre'r-ddôl 832028
Eglwysfach/Ffwrnais: Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais (01654) 781324
Rhwydweithiau cymdeithasol: Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB
Cadeirydd: Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont 832203
Is-gadeirydd: Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont 832697
Ysgrifennydd: Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont 832344
Trysorydd: Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093
Tanygrifiadau: Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448
Hysbysebion: Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont 832076
Plygu'r Papur: Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins
Dosbarthwyr: Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...

www.papurpawb.cymru

hefyd dilynwch ni ar drydar a gwepllyfr (@papurpawb)

Pasg yn Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach

Dydd Gwener Grogllith Dangosiad ffilm 'The Gospel of Mark', mynediad am ddim yn yr Ystafell Haearn, 2.30 yp.

Sul y Pasg Gwasaneth Cymun, 9.30 yb.

Dydd Sadwrn 29 Ebrill 10.30yb Ffair Blanhigion (a phaned a chacen) yn yr Ystafell Haearn, er budd mynwent yr eglwys. Croeso ichi ddod a'ch planhigion i'w gwerthu.

GŴYL R. S. THOMAS 15-17 Medi yn Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach

Dydd Gwener 15 Taith gerdded gyda Jeremy Moore a Dave Anning i hoff lefydd R.S. Darlithoedd gan Peter Lord a'r Athro Jason Walford Davies, gyda Sgarmes yn cadw noson.

Dydd Sadwrn 16 Gwasanaeth yng ngofal Esgob newydd Tŷ Dewi a darlithoedd gan y bardd cenedlaethol a'r Athro Tony Brown.

Dydd Sul 17 Diwrnod Barddoniaeth gyda darlleniadau gan Gillian Clarke ac Ifor ap Glyn.

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur
- a rhagor

Noddwyd y wefan hon gan:

Anthony Motors
Volkswagen



papurpawb.cymru

Dyddiadur

EBRILL

- 14 **Bethel** 10 Oedfa Undebol
Gwener y Grogllith.
Gweinidog (C)
- 16 **Bethel** 10 Oedfaon
Undebol Sul y Pasg;
2 Gwasanaeth Teulu.
Parchedig Judith Morris
Nasareth 2 Uno ym Methel
Rehoboth 10 Judith Morris
Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30 Hwylod Weddi
- 23 **Bethel** 10 Pregethwr
achlysurol
- 24 **Merched y Wawr**
Tal-y-bont a'r Cylch 'Dŵr'
(Dr Ffion Jones)
- 25 **Cymdeithas Treftadaeth**
Llangynfelyn 7.30 'Cors
Fochno' (Dr Martin Bates)
- 27 **Cylch Meithrin** Sioe
Ffasiwn. 7.30 Neuadd Goffa
Tal-y-bont
- 30 **Bethel** 10 Oedfa Undebol
yn Noddfa
Nasareth 10 Oedfa'r
Ofalaeth yng nghapel y
Garn
Rehoboth 10 Oedfa'r
Ofalaeth yng nghapel y
Garn
Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30 Unedig yn Elerch

MAI

- 2 **Sefydliad y Merched**
Taliesin Ymweld â'r Orsaf
Dân yn Aberystwyth
- 7 **Bethel** 2 Uno yn Nasareth
Nasareth 2 Richard Lewis
Rehoboth 10 Adrian P.
Williams
Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30 Cymun Bendigaid
- 14 **Bethel** 10 a 5.30
Y Gymanfa Ganu
- 15 **Merched y Wawr**
Tal-y-bont a'r Cylch
'Brethyn Cartref'

- 19 **Sesiwn Nos Wener** Noson
yng Nghwmni'r Beirdd
8 Y Llew Gwyn
- 21 **Bethel** 10 Gwasanaeth Teulu
Sul Cymorth Cristnogol
Nasareth 10 Uno ym
Methel
Rehoboth 5 Carwyn Arthur
(R)
- 23 **Cymdeithas Treftadaeth**
Llangynfelyn 7.30
'Nant-y-moch cyn y boddi'
(Erwyd Howells)
- 28 **Bethel** 10 Gweinidog (C)
Nasareth 10 Uno ym
Methel

Os am gynnwys manylion
am weithgareddau eich
mudiad neu'ch sefydliad
yn nyddiadur y mis,
dylech anfon y manylion
llawn at Carys Briddon,
carysbriddon@btinternet.
com 01970 832478 o leiaf
ddeng niwrnod cyn y
rhifyn nesaf o Papur
Pawb.

Golygyddion y rhifyn
hwn oedd Llio a Cath,
gyda Tanwen yn dylunio.
Golygyddion mis Mai fydd
Rhian (rhian.evans@tiscali.
co.uk) a Catrin (catrinsj@
gmail.com) Y dyddiad cau
ar gyfer derbyn newyddion
fydd dydd Gwener 5 Mai
2017, a bydd y papur ar
werth ar 12 Mai.

Gwasanaeth Cynnal a Chadw Gerddi
MYNACH
Garden Maintenance

Tori Porfa, Sietynau, Tirlunio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

Ffoniwch Meirion:
07792457816 / 01974 261758

e-bost:
mynachhandyman@yahoo.com



Etholiad Cyngor Sir Ceredigion

Ward
Ceulanamaesmawr

Byddwn yn ddiolchgar
am eich cefnogaeth.

Dydd Iau Mai 4ydd 2017

Ellen ap Gwynn

Plaid Cymru
The Party of Wales



Hydref 2017 gan: Ellen ap Gwynn, Caring Wex, Tal-y-bont, Ceredigion

Croeso

Croeso cynnes i drigolion newydd Glanrhyd a'r Hen Ficerdy, Bont-goch.

Cydymdeimlad

Trist iawn yw clywed am farwolaeth William Jenkins, Y Gelli, Tre Taliesin yn ddiweddar a chydymdeimlwn yn fawr â Ruth ei wraig, y meibion, Aled ac Alwyn a gweddill y teulu.

Dwy yn yr ysbyty

Ein dymuniadau gorau i Mai Leeding, Glannant ac Olwen Rowlands, 3 Wesley Terrace, Tre Taliesin sy'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Bronglais ar hyn o bryd.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Steffan ac Elen Clwyd Roberts, Mynydd Gorddu, Bont-goch, ar enedigaeth Celt Meredydd ar 10 Mawrth, brawd bach i Lois a Math. Dymuniadau gorau i'r teulu cyfan.

Pen-blwydd Arbennig

Pen-blwydd hapus iawn iawn a phob dymuniad da i Mrs Avril Bond, Brodawel, Taliesin ar ddathlu pen-blwydd hynod arbennig ar 16 Ebrill eleni.

Pen-blwydd arbennig

Dathlwyd sawl pen-blwydd arbennig yn yr ardal yn ddiweddar. Pob dymuniad da i Aileen Williams ac i Sian Saunders, Is-y-Coed, Tre Taliesin ar eu pen-blwydd arbennig. Dymuniadau da i Menna Jenkins, Ynys Capel, a ddathlodd ein phen-blwydd yn 90 oed.

Dathlodd Josh Bradley ei ben-blwydd yn 21ain yn ddiweddar. Pen-blwydd hapus i ti.

Yn yr Ysbyty

Dymuniadau gorau i Gwynnaf Evans, Maes-y-Deri sydd wedi bod yn yr ysbyty.

I'r Genedlaethol

Llongyfarchiadau i Nia Benham, Goetre Fach, Llangynfelyn sydd yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Penweddig a ddaeth yn gyntaf ar yr unawd fflwt i ddisgyblion BL7-9 yn Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Ceredigion. Bydd Nia yn cynrychioli Ceredigion yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ddiwedd mis Mai. Da iawn ti Nia.

Pobl a Phethe



Cafwyd noson arbennig o dda yng nghwmni Bob Delyn yn y Llew Du 7 Ebrill wedi'i threfnu gan Sesiwn Nos Wener gyda chymorth Noson Allan

Cofiwch Bleidleisio

Am y tro cyntaf ers blyneddoddi lawer, cynhelir etholiad ar gyfer Cyngor Bro Ceulanamaesmawr, gyda 13 ymgeisydd yn ymgiprys am 12 sedd. Cynhelir yr etholiad ar ddydd Iau 4 Mai ar yr un pryd â'r etholiad ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion. Yn yr etholiad hwnnw, fe fydd cynghorydd presennol Ceulanamaesmawr, Ellen ap Gwynn, yn amddiffyn ei sedd yn erbyn ymgeisydd annibynnol John Dilwyn Lewis. Yn achos y cyngor sir, mae etholaeth Ceulanamaesmawr yn cynnwys plwyfi Llangynfelyn ac Ysgubor-y-coed.

Ni fydd etholiadau ar gyfer y ddau gyngor bro arall yn yr ardal, Llangynfelyn ac Ysgubor-y-coed, gan nad oedd mwy o ymgeiswyr na'r nifer o seddi. Yr ymgeiswyr yng Ngheulanamaesmawr yw:

Ellen Elizabeth Ap Gwynn (PC); Emyr Wyn Davies; David Llywelyn Evans; Nia Evans; Rhian Haf Evans (PC); Bleddyn Owen Huws (PC); Enoc Wyn Jenkins (PC); Nest Jenkins; Susan Elizabeth Jones-Hughes; David Morris Jones (Ann); Megan Mai (PC); Roger John Morel du Bol.

Er bod y grym sydd gan y cynghorau bro yn gyfyngedig, mae'n bwysig bod safbwyntiau'n cymunedau yn cael eu cynrychioli'n effeithiol. Felly, mae'n hanfodol fod holl etholwyr Ceulanamaesmawr yn gosod eu croesau ar y papurau pleidleisio yn y bwth pleidleisio yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ar 4 Mai.

Garej Davmor



- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278

www.davmorgarage.co.uk

Colli cymeriad

Trist iawn yw adrodd am farwolaeth un o wir gymeriadau pentref Tal-y-bont, Bob Southgate, Maesyderi. Cydymdeimlwn yn fawr â'i deulu niferus yn Nhal-y-bont a thu hwn. Byddwn yn cynnwys teyrnged iddo yn rhifyn nesaf Papur Pawb.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn fawr â Janine Dibble a'r teulu yn eu hiraeth o golli mab a brawd mor ifanc.

Llongyfarchiadau

Enillodd Catrin Huws, Henllan, gadair Eisteddfod Penweddig. Llongyfarchiadau mawr!



Grŵp Chwarae Taliesin

Braf gweld y plant yn mwylhau'r haul yn Grŵp Chwarae Taliesin wrth addurno cwpanau wy ar gyfer y Pasg, gydag arweinydd y Grŵp Jenny Dingle. Mae'r Clwb ar agor i bawb bob dydd Iau yn ystod y tymor o 10-12 yn festri Rehoboth.

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ

helen.iwan@btinternet.com

01970 832760



Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

DARLITH FLYNYDDOL MORLAN-PANTYFEDWEN 2017

**'Y Williams iawn?':
Golwg newydd ar Williams
Pantycelyn gan Saunders Lewis**

7.30, nos Lun, 24 Ebrill

Yr Athro D. Densil Morgan fydd yn traddodi'r ddarlith eleni ar destun amserol gan fod 2017 yn nodi trichanmlwyddiant geni'r emynydd nodedig hwn. Mynediad am ddim.

Manylion llawn ar wefan Morlan:
morlan.cymru

Morlan, Morfa Mawr, Aberswyth SY23 3HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com

Ysgol Tal-y-bont



Cadw'n Iach a Heini

Mae mis Mawrth wastad yn fis prysur oherwydd ein bod yn cefnogi cymaint o weithgareddau lleol a chenedlaethol. Ond eleni roedd yn fwy prysur nag arfer oherwydd ein bod wedi bod yn rhan o ddigwyddiad pwysig oedd yn cael ei chynnal ar draws gwledydd Prydain. Enw'r digwyddiad oedd The Big Pedal a'r pwrpas oedd i annog, herio ac ysbrydoli plant, staff a rhieni'r ysgol i ddewis dwy olwyn yn hytrach na phedair ar gyfer eu taith i'r ysgol. Dros byrthefnos, cynhaliwyd gweithgareddau hynod lwyddiannus lle cafodd pawb gyfle i ymuno yn yr hwyl. Cafwyd diwrnod o drwsio beics gyda Jim y 'Doctor Beics' wrthi'n ddiwyd drwy'r dydd yn rhoi MOT i dros 30 o feics a sgwters! Ar ddiwedd y pythefnos cynhaliwyd digwyddiad arbennig lle cafodd y plant gyfle i wisgo fel archarwr er mwyn dathlu llwyddiant yr ysgol. Ysgol Tal-y-bont oedd y gorau yng Nghymru ar yr her undydd i ysgolion bach – tipyn o gamp! O gasglu data'r pythefnos gyfan, roeddem yn 3ydd yng Ngheredigion ac yn 9fed yng Ngwledydd Prydain. Mae'n amlwg fod y digwyddiad wedi cydio yn nychymyg y plant a'r staff gan fod cymaint wedi cymryd rhan yn y digwyddiad a Mrs Griffiths a Sioned Lewis wedi seiclo'r holl ffordd o Fachynlleth i'r ysgol ar y diwrnod olaf – da iawn chi! Mae'r bartneriaeth bwysig rhwng yr ysgol a Sustrans Cymru'n parhau a hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr i Sioned a Helen am eu cymorth yn ystod y pythefnos a diolch yn fawr i Mrs Rhys am gydlynw'r holl ddigwyddiadau hefyd. Rydym yn edrych ymlaen i ddechrau Clwb Sgiliau Seiclo fis Mai gan baratol ar gyfer Gŵyl Seiclo Aber. Mwy am hynny fis nesaf!



Ysgol Iach

Mae hi bob amser yn braf cael croesawu PC Alun Jones i'r ysgol. Mae ganddo negeseuon pwysig i'w rhannu gyda'r plant bob tro. Y tro yma, roedd wedi dod i drafod peryglon bwlio seibr gyda disgyblion Bl 5 a 6, cadw'n ddiogel ar y wê gyda disgyblion Bl 3 a 4 a ac fe wnaeth drafod cerbydau argyfwng a phryd i ffonio 999 gyda B 1 a 2. Ymatebodd y plant yn wych i'r sesiynau.



Enillwyr tarianau gyda Miriam Davies, Prifardd Eisteddfod Ysgol Tal-y-bont



Ffair Wyddoniaeth



Miriam Davies a Caoimhe Melangell fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch a'r Eisteddfod Rhanbarth.



Archarwyr Sustrans



Archarwyr Sustrans



Cymeriadau Diwrnod y Llyfr

Eisteddfod Gŵyl Dewi

Cawsom Eisteddfod prysur a llwyddiannus ac roedd hi'n braf gweld cymaint o gynulleidfa yn y Neuadd Goffa. Diolch yn fawr i aelodau pwyllgor y GRha am drefnu lluniaeth yn ystod yr egwyl. Cafwyd gwledd o berfformiadau unigol ac rydym yn falch o bob un plentyn a gymerodd ran. Diolch yn fawr i'r beirniaid, Elen Pencwm (llefaru) a Jane Reynolds (canu a cherddoriaeth) am eu gwaith diwyd yn ystod y dydd. Rydym yn ddiolchgar i'r Prifardd Manon Rhys am feirniadu'r gwaith llenyddol a chystadleuaeth cerdd y Gadair ac am draddodi a chynnal Seremoni'r Cadeirio. Llongyfarchiadau i Miriam Davies am ennill y gadair am ei cherdd "Y Gwanwyn" a diolch i siop Jewellery House am y gwobrau i'r cyntaf, ail a thrydydd yn y gystadleuaeth. Diolch hefyd i Fflur Edwards am feirniadu'r llawysgrifen ac i Mandy McAnutly am feirniadu'r cystadlaethau celf ac i Oriel y Bont, Aberystwyth am noddi'r cystadlaethau hynny. Mae'n dyled yn fawr unwaith eto i Mrs Falyri Jenkins am ei gwaith hyfforddi a chyfeilio.



Parti Unsain

Diwrnod y Llyfr

Gan fod Gwasg y Lolfa yn dathlu pen blwydd arbennig eleni, penderfynwyd y byddem yn dathlu Diwrnod y Llyfr drwy wisgo cymeriadau o lyfrau'r wasg. Fel y gallwch ddisgwyl roedd cymeriadau Rala Rwdins a Bili Boncyrs yn boblogaidd iawn ac roedd yna sawl Dona Direidi yn yr ysgol y diwrnod hwnnw. Bu plant hŷn yr ysgol hefyd yn ymweld â Llyfrgell y Dref fel rhan o weithgareddau'r diwrnod – diolch yn fawr i Delyth Huws am drefnu a diddanu'r disgyblion.

Eisteddfodau'r Urdd

Roedd hi'n hyfryd i weld Caoimhe, Miriam a'r parti unsain yn cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch eleni ac roedd y safon yn uchel iawn fel arfer. Hoffwn ddiolch yn fawr i'r rhieni am gynorthwyo ac i Catrin Mai a Catrin Saunders-Jones am hyfforddi'r parti eleni eto. Llongyfarchiadau mawr i Caoimhe Melangell ar ei pherfformiad gwych yn yr Eisteddfod Rhanbarth ym Mhontrhydfendigaid a llongyfarchiadau hefyd i Miriam Davies a fydd cystadlu gydag Adran Tref Aberystwyth ar lwyfan y Genedlaethol ym Mhen-y-bont ar Ogrwr.

Ffair Wyddoniaeth

Mae mynychu Ffair Wyddoniaeth y Brifysgol yn achlysur pwysig bob blwyddyn ac unwaith eto roedd y plant wedi mwynhau cael cyfleoedd ymarferol i ddysgu am wahanol elfennau o'r maes. Llongyfarchiadau i Emily, Catrin a Theresè o Flwyddyn 6 am ennill y gwis. Cawsant sypreis hyfryd wrth agor y parsel gwobrau yr wythnos yma!

Diwrnod Trwyn Coch

Dymuniad y Cyngor Ysgol eleni oedd codi arian at yr elusen Comic Relief drwy cael diwrnod trwynau coch a gwallt gwirion.

Myfyrwraig

Roedd hi'n bleser cael derbyn myfyrwraig o Brifysgol Bangor am wythnos o arsylwi. Mae Elen Llwyd Davies yn ei thrydedd blwyddyn yn astudio Addysg Gynradd. Roeddem yn ffodus iawn o'i chymorth yn ystod y cyfnod byr yma ac rydym yn dymuno'n dda iddi yn ei gyrra fel athrawes.

EISTEDDFOD YR YSGOL – canlyniadau

Llefaru Dosbarth Derbyn

1. Martha Cosson
2. Rowan Glover
3. Swyn Jones a Leah Cartwright

Canu Dosbarth Derbyn

1. Osian Jones
2. Sofia Roberts
3. Lela Jenkins a Swyn Jones

Llefaru Blwyddyn 1

1. Hedydd Beechey
2. Siskin Harding Bubb
3. Oska Foster Tvedt

Canu Blwyddyn 1

1. Hedydd Beechey
2. Oska Foster Tvedt
3. Siskin Harding Bubb

Llefaru Blwyddyn 2

1. Ela Jones
2. Hopcyn Cosson
3. Summer McNulty

Canu Blwyddyn 2

1. Ela Jones
2. Amber Lewis
3. Hopcyn Cosson

Llefaru Blwyddyn 3

1. Evie James a Elen Lloyd Williams
2. Grace Melad Woodling
3. Alice Groves

Canu Blwyddyn 3

1. Grace Melad Woodling
2. Evie James
3. Tyler Murray

Llefaru Blwyddyn 4

1. Caoimhe Melangell a Carys Joseph
2. Glain Jones
3. Celsea Southgate

Canu Blwyddyn 4

1. Glain Jones
2. Celsea Southgate
3. Carys Joseph

Llefaru Blwyddyn 5

1. Miriam Davies
2. Efa Saunders Jones
3. Sean Cartwright

Canu Blwyddyn 5

1. Miriam Davies
2. Violet Jordan
3. Efa Saunders Jones

Llefaru Blwyddyn 6

1. Catrin Jones
2. Therese Melad Woodling
3. Chloe Farr

Canu Blwyddyn 6

1. Therese Melad Woodling
2. Chloe Farr
3. Grace James

Llinynnol CA2

1. Caoimhe Melangell
2. Miriam Davies
3. Grace Melad Woodling

Chwythbrennau CA2

1. Therese Melad Woodling
2. Miriam Davies
3. Ava Lewis

Piano Blwyddyn 3 a 4

1. Elen Jenkins
2. Rhoswen Evans a Evie James
3. Celsea Southgate

Piano Blwyddyn 5 a 6

1. Efa Saunders Jones
2. Miriam Davies
3. Grace James a Therese Melad Woodling

Côr

1. Leri
2. Ceulan

Celf Dosbarth Derbyn

1. Alaw Morgan
2. Swyn Jones
3. Martha Cosson

Celf Dosbarth Derbyn

1. Martha Cosson
2. Rowan Glover
3. Alaw Morgan

Celf Blwyddyn 1

1. Siskin Harding Bubb
2. Hedydd Beechey
3. Oska Foster Tvedt

Llawysgrifen Blwyddyn 1

1. Siskin Harding Bubb
2. Hedydd Beechey
3. Oska Foster Tvedt

Celf Blwyddyn 2

1. Cian Dines
2. Amber Lewis
3. Ela Jones

Llawysgrifen Blwyddyn 2

1. Ela Jones
2. Kelsey Murray
3. Hopcyn Cosson

Celf Blwyddyn 3

1. Evie James
2. Elen Lloyd Williams
3. Grace Melad Woodling

Llawysgrifen Blwyddyn 3

1. Ava Lewis
2. Elen Lloyd Williams
3. Grace Melad Woodling

Celf Blwyddyn 4

1. Elen Jenkins
2. Glain Jones
3. Evan James

Llawysgrifen Blwyddyn 4

1. Glain Jones
2. Rhoswen Evans
3. Caoimhe Melangell

Celf Blwyddyn 5

1. Miriam Davies
2. Violet Jordan
3. Iestyn Putt

Llawysgrifen Blwyddyn 5

1. Miriam Davies
2. Efa Saunders Jones
3. Violet Jordan

Celf Blwyddyn 6

1. Therese Melad Woodling
2. Catrin Jones
3. Grace James

Llawysgrifen Blwyddyn 6

1. Therese Melad Woodling
2. Grace James
3. Joel Bradley

Llenyddiaeth Gymraeg Blwyddyn 3

1. Elen Lloyd Williams
2. Tyler Murray
3. Evie James

Llenyddiaeth Gymraeg Blwyddyn 4

1. Glain Jones
2. Elen Jenkins
3. Carys Joseph

Llenyddiaeth Gymraeg Blwyddyn 5

1. Miriam Davies
2. Violet Jordan
3. Iestyn Putt

Llenyddiaeth Gymraeg Blwyddyn 6

1. Therese Melad Woodling
2. Catrin Jones
3. Chloe Farr

Llenyddiaeth Saesneg Blwyddyn 3

1. Elen Lloyd Williams
2. Evie James
3. Ava Lewis

Llenyddiaeth Saesneg Blwyddyn 4

1. Glain Jones
2. Caoimhe Melangell
3. Elen Jenkins

Llenyddiaeth Saesneg Blwyddyn 5

1. Efa Saunders Jones
2. Miriam Davies
3. Iestyn Putt

Llenyddiaeth Saesneg Blwyddyn 6

1. Therese Melad Woodling
2. Joel Bradley
3. Catrin Jones

Cerdd y Gadair

1. Miriam Davies
2. Therese Melad Woodling a Joel Bradley
3. Carys Joseph

Enillwyr:

Tlws Mair Nutting i'r llefarydd gorau – Hedydd Beechey

Tlws coffa J.D. Jones i'r llais gorau – canu – Grace Melad Woodling

Tlws Geoff a Bethan Davies i'r perfformiad gorau yn y Cyfnod Sylfaen

(Derbyn, Blwyddyn 1, Blwyddyn 2) – Hedydd Beechey

Tlws Llenyddiaeth – Miriam Davies

Cwpan Anwyl Evans i'r marciau uchaf yn y Cyfnod Sylfaen – Ela Jones/Hedydd Beechey

Tarian Catrin Maesmeillion (celf a llawysgrifen – marciau uchaf) – Siskin Harding Bubb/Miriam Davies/Therese Melad Woodling

Tarian Dylan a Dwynwen Morgan i'r marciau unigol uchaf – Miriam Davies

Tarian Carregcadwgan i'r tŷ buddugol – Leri

Cylch Meithrin Tal-y-bont

Mae tymor prysur arall yn y Cylch Meithrin yn dirwyn i ben, wrth i bawb edrych ymlaen at wyliau'r Pasg. Fel sy'n digwydd ar ddiwedd bob tymor, bydd rhai'n ffarwelio â'r Cylch i symud ymlaen i'r ysgol gynradd – ac mi fyddant gymaint parotach am y profiad hwnnw o ganlyniad i'w profiadau yn y Cylch – a rhai bach eraill yn aros i gymryd eu lle.

Un o uchafbwyntiau'r wythnosau diwethaf fu cymryd rhan yn Eisteddfod yr ysgol, gyda phlant y Cylch Meithrin yn canu Gee Ceffyl Bach yn unigol ar lwyfan y Neuadd Goffa. Braf oedd gweld hyder y plant ar y llwyfan, a brafiach fyth oedd gweld pawb yn cefnogi ei gilydd. Deio ddaeth i'r brig, gyda Mari'n ail a Freya'n drydydd. Diolch yn fawr iawn i'r plant a'r rhieni, ac yn arbennig i'r staff am yr hyfforddiant ac am roi profiadau mor werthfawr i'r plant – yn enwedig ar ddydd Gwener, pan nad yw'r Cylch yn arfer cwrdd!

Codi arian

Mae staff a phwyllgor y Cylch wedi bod yn brysur yn codi arian at wahanol ddibenion. Derbyniwyd swm gan Ras yr Iaith tuag at brynu adnoddau fydd yn hybu sgiliau'r plant yn y Gymraeg. Gyda chwmnïau Atebol a'r Lofa o fewn tafliaid carreg, ni fydd angen edrych yn bell am adnoddau o'r safon uchaf.

Ers dau dymor bellach, mae Clwb Brecwast wedi bod ar gael yn y Cylch. Mae'n agor ei ddrws am 8.15, ac yn cynnig gwasanaeth gwerthfawr i rieni sy'n gweithio, ac sydd angen cyrraedd y gwaith erbyn 9 o'r gloch neu'n gynt. Cafwyd cymhorthdal yn ddiweddar gan gynghorau cymuned Ceulanamaesmawr ac Ysguborycoed tuag at gynnal y Clwb Brecwast, ac at y pwrpas hwn aeth elw'r cyngerdd Nadolig yn ogystal. Unwaith eto, mawr yw ein diolch i'r staff am fodloni dod mewn i'r gwaith yn gynnwys a gwneud y Clwb yn bosib.

Sioe Ffasiwn

Ar 27 Ebrill, am 7.30 yn Neuadd Goffa Tal-y-bont, cynhelir Sioe Ffasiwn i godi arian at y Cylch. Dillad o siopau lleol Polly's ac Ollie's fydd yn cael eu harddangos, a hynny gan amrywiaeth o fodolau lleol a fydd yn wynebau cyfarwydd i ddarlennwyr Papur Pawb. Bydd nifer fawr o stondinau crefft a ffasiwn hefyd. £8.50 yw'r pris mynediad gan gynnwys gwydraid a chacen, mi ddylai fod yn noson hwyliog tu hwnt.

**SIOE FFASIWN
FASHION SHOW**

27.04.17 @7.30

Neuadd Goffa Talybont

Dillad gan:
Clothes by:



Stondinau Crefft a Ffasiwn
Craft and Fashion Stalls

Elw at:
To raise funds for
Cylch Meithrin Talybont

Mynediad £8.50
gan gynnwys
gwydraid a chacen
Entry £8.50
including bubbly
and a cake



Teicymau ar gael o ffasiwn new a
Rebbecca 07905 930508
Advance tickets from
Rebbecca 07905 930508

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Teithiodd yr aelodau i Theatr y Werin, Aberystwyth yn ystod y mis i fwynhau perfformiad Cwmni Bara Caws o ddrama Sion Eirian 'Yfory'. Rhoddwydd caniatad arbennig i un neu ddau o'r gwyr i ymuno â ni am y noson!

Yna nos Fawrth, 4 Ebrill derbyniwyd gwahoddiad Cangen Melindwr o Ferched y Wawr i ymweld â hwy yn neuadd Penllwyn i fwynhau noson o adloniant gan Gôr Llyfrgell Genedlaethol Cymru a swper ysgafn.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar 24 Ebrill pryd y byddwn yn estyn croeso i Dr Ffion Jones atom.



Longyfarchiadau mawr i'r criw o CFfl Tal-y-bont a wnaeth cymryd rhan yn her 'Seiclo'r 75' ar ddydd Sadwrn 8 Ebrill i godi arian tuag at Feiciau Gwaed Cymru a CFfl Ceredigion.

Gatiau i Barc Natur Ysgol T. Llew



Ar gais Ysgol Gymunedol T. Llew Jones, derbyniodd Jon Evans, y cerflunydd sydd â stiwdio yn Hen Ysgol yr Eglwys yn Bont-goch gomisiwn i greu gatiau newydd fel mynedfa i ardd natur a noddwyd gan Tesco.

Cyfrannodd y plant eu syniadau i Jon, ac mae'r canlyniad yn waith celf trawiadol iawn o'r safon uchaf mewn pren derw Cymreig o Sir Benfro a darnau o lechen Aberllefenni. Bydd y plant wrth eu bodd pan welant y gwaith gorffenedig sy'n cynnwys cerfiadau cain o'r wiwer, llygod a thylluan, yn ogystal â'r blodau hyfryd sydd hefyd yn rhan o'r cynllun. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys geiriau pwrpasol gan fardd lleol, Dai Pendre.

Mae hwn yn gampwaith, ac mae'n hyfryd meddwl ei fod wedi ei greu gan grefftwr medrus lleol yn Bont-goch.

**CANOLFAN
M.O.T.**

**HUW
LEWIS**



**M.O.T.
CENTRE**

**Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT**

HUWLEWISTYRES.COM

**TEIARS
HUW
LEWIS**



TYRES

Glanyrafon **Rhodfa'r Parc**

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni
drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Teyrnged

Roy Bamford 1949–2017

Cafodd Roy a'i bedwar brawd a chwaer eu magu yn Haenor yn Swydd Derby. Roedd Roy yn naturiaethwr brwd o oedran ifanc a threuliodd lawer o'i amser yn gwylio adar ac yn chwilio am nythod, pan nad



oedd e'n chwarae pêl-droed, hyd nes ei fod yn dechrau gweithio yn tua 14 oed. Roedd pêl-droed, fel cerddoriaeth, yn ddihangfa i Roy, a chwaraeodd ym mhob man aeth, cyn i anaf ei orfodi i droi i fod yn ganolwr. Hyfforddodd nifer o dimau ieuencid.

Gadawodd Roy ei swydd fel peiriannydd a ffitiwr i Rolls Royce yng nghanol ei ugeiniau i gymryd llwybr newydd a chafodd ei arwain gan ei angerdd am natur. Symudodd ef i ucheldiroedd anghysbell yr Alban i ymuno â'r Comisiwn Coedwigaeth. Treuliodd flynyddoedd yn gweithio fel warden gwirfoddol yn yr Alban ac yno cwrddodd â'i wraig a'i bartner bywyd dros 40 mlynedd, tra yn gwirfoddoli gyda'r 'Conservation Corps'. Bu'n gweithio ar warchodfeydd RSPB yn Lloegr, ac yng Nghymru, yn RSPB Ynys Hir fel cynorthwydd i Bill Condry.

Ymgartrefodd Roy a Vic yma yn 1978, a magu dau fab yng Nghwm Einion. Roedd yn caru'r ardal hon, ac ar ôl gweithio yn y warchodfa, cymerodd swydd fel coedwigwr cadwraeth i'r Comisiwn Coedwigaeth, ac wedyn fel hyfforddwr gweithgareddau awyr agored yng nghanolfan Plas Einion. Doedd fawr o ardaloedd anghysbell a gwyllt o Gymru nad oedd yn eu hadnabod.

Ers 1993 roedd wedi gweithio mewn ystod eang o swyddi



Rhai o blant Tal-y-bont a hyfforddwyd gan Roy

cadwraeth gan gynnwys ymchwil cornchwigen am wyth mlynedd, ac arolwg troellwr mawr ar gyfer Gymru gyfan; ymchwiliodd i'r gylfinir am bedair blynedd a bu hefyd yn gwneud gwaith ar ddyfrgwn, llygod y dŵr, pathewod, ystlumod, adar glaswelltir ac adar y goedwig a gwyddau ar y Dyfi ac yn Iwerddon. Roedd hefyd yn warden cynorthwyol yng ngwarchodfa Cwm Cletwr. Bu hefyd yn gweithio i Mencap am nifer o flynyddoedd fel gweithiwr cefnogol rhan-amser.

Bydd pawb yn cofio Roy fel dyn tawel a diymhongar, ond roedd hefyd yn cymryd rhan lawn ym mhob agwedd ar fywyd. Sefydlodd a rhedodd clybiau amrywiol gan gynnwys yr Adaregwyr Ifanc a Thenis Bwrdd, ac roedd hefyd yn rhoi llawer iawn o'i amser a'i egni i gefnogi pobl ifanc i chwarae pêl-droed yn y cynghrair ieuencid Mini Minors yn Aberystwyth. Roedd yn ddyn caredig ac anhunanol.

Treuliodd ei ddyddiau olaf yn gwrandao gerddoriaeth a gwylio'r adar yn yr ardd. Bu farw yng Nghwm Einion, a chafodd gladdedigedig werdd yn Nyffryn Dyfi a oedd mor bwysig iddo fe. Mynychwyd yr angladd gan gyd-chwaraewyr pêl-droed o'i ieuencid, gwylwyr adar a naturiaethwyr lleol, a theulu a ffrindiau o bell ac agos.

Y peth olaf a ysgrifennodd oedd i ddweud wrth ei frawd ieuengaf ei fod yn gallu clywed y ji-bincod yn canu.

Mae Cwmni Cletwr yn mynd yn rhyngwladol

Fe ymwelodd Nigel Callaghan, Cadeirydd Cwmni Cletwr â Brwsel yn ddiweddar. Pwrpas ei daith oedd siarad â phwyllgor yr Undeb Ewropeidd am waith y grŵp a'i effaith ar y gymuned.

Fe ddaeth ei gwahoddiad gan o Bwyllgor Economaidd a Chymdeithasol yr UE. Daeth y gwahoddiad drwy Tom Jones, Raporteur y grŵp, sydd hefyd yn ffermio ger Y Trallwng, ac un sy'n gyfarwydd iawn â Chletwr. Roedd y pwyllgor yn cynnal gwrandawriad ar rôl pentrefi a threfi bychain fel catalydd am ddatblygiad gwledig. Daeth siaradwyr eraill o Hwngari, Denmarc, Croatia ac Estonia.

Gan siarad ar ôl y sesiwn, dywedodd Nigel "Roeddwn i wrth fy modd i gael y gwahoddiad hwn. Mae Cletwr wedi derbyn cymorth ariannol sylweddol gan nifer o gyrff cyhoeddus a phreifat, ac mae hyn yn cydnabod eu bod nhw wedi gwneud buddsoddiad gwerth chweil, sydd wedi gwneud cyfraniad mawr a gwerthfawr i adfywiad ein cymuned."

Ychwanegodd "Roedd hi'n ddiddorol iawn gweld gwaith yr UE o'r tu fewn, a chael cyfle i siarad â phobl o rannau eraill yn Ewrop. Mae ganddyn nhw broblemau tebyg i ni, ac maen nhw wedi penderfynu gweithio eu hun i wrth-droi dirywiad eu cymunedau mewn nifer o ddulliau diddorol. Mae arian gan lywodraethau canolog yn cael ei dorri mwy a mwy, ac felly fe fydd rhaid i gymunedau ar draws Cymru (a thu hwnt) ddibynnu'n llawer mwy ar eu hadnoddau eu hunain. Gobeithio bod Cletwr yn enghraifft o beth sy'n bosib pan fydd aelodau cymuned yn gweithio gyda'i gilydd.

Mewn newyddion arall mae gwaith ar yr adeilad newydd yn mynd yn ei flaen yn gyflym iawn! Gobeithio fe fydd ar agor yn yr Hydref. Ariennir yr adeilad newydd gan Gronfa Loteri Fawr, Llywodraeth Cymru, Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig y UE, Cyngor Ceredigion a'r Trusthouse Foundation.

Yn y cyfamser, mae'r siop a'r caffi dal ar agor fel arfer, beth am alw i mewn am banded i fusnesa ar yr adeilad newydd?

Elin Jones AC



Yn ddiweddar fe ddaliais i'r bws T1C am 8.21 y bore o Aberaeron i Gaerdydd. Dyma'r unig wasanaeth dyddiol (heblaw am ddydd Sul) rhwng Aberystwyth a Chaerdydd. Ym mis Awst llynedd, daeth y gwasanaeth bws 701 blaenorol i ben, pan aeth y cwmni oedd yn

cynnal y gwasanaeth i ddwylo'r gweinyddwyr. Ynghyd â defnyddwyr y bws a'r Cyngor Sir, fe wnes i dreulio'r misoedd nesaf yn perswadio'r Gweinidog Trafnidiaeth yn Llywodraeth Cymru i ail ddechrau'r gwasanaeth. Mae angen y gwasanaeth yma, yn enwedig i fyfyrwyr, pobl sydd heb geir a'r henoedd sydd yn ymweld â theulu ar hyd coridor yr M4. Roeddwn i'n falch iawn felly pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru, ei bod am ariannu First Cymru i ddarparu gwasanaeth.

Bron yn syth ar ôl i'r gwasanaeth newydd ddechrau, derbyniais sawl cwyn gan ddefnyddwyr, ynghlŷn ag ansawdd a diogelwch y gwasanaeth. Mae nifer o etholwyr wedi dweud na fydden nhw'n defnyddio'r gwasanaeth yma eto. Does dim dewis lawer dewis ond wneud gyda nifer o bobl.

Cyrrhaeddais i Fae Caerdydd ar amser. Roedd fy nghyd-deithwyr yn gyfeillgar, a'r gyrrwr yn barod i helpu. Ond dyna ddiweddar ar yr agweddau positif. Dim toiled, dim gwregys diogelwch, dim gwres ac roedd hi'n bell o fod yn daith gyfforddus. Ar adegau roeddwn i'n teimlo bod dim gwahaniaeth rhyngom ni a lori llawn gwartheg yn hyrddio lawr yr M4. Rwy'n falch, wrth gwrs, fod y gwasanaeth wedi'i ail-ddechrau ym mis Rhagfyr, ond mae eisiau iddo fynd yn ôl i fel yr oedd o dan Lewis Llanrhystud, gyda bws sydd yn ffit i daith hir, gwres, yn ddiogel ac yn gyfforddus. Mae Llywodraeth Cymru wedi addo adolygu'r gwasanaeth mewn 6 mis, ac fe fydda i'n pwyso am gael yr uwchraddiad yma, gyda'r angen hefyd am wasanaeth 7 diwrnod. Mae pobl Ceredigion yn haeddu gwell na beth sydd ar gael ar hyn o bryd.

Elin Jones AC

Teyrnged

Gwilym Richards, Caerglwyddes

Saith mis ar ôl colli'i briod Myra bu farw fy nghefnder hoff William John Breese Richards, Gwilym ar 29 Mawrth yn 89 oed ar ôl dihoeni ers cryn amser. Fe'i ganed ef a'i chwaer iau Averinah ar fferm Blaen Nant ger Bedd Taliesin, yn blant i Elisabeth Ann (Jones) a Richard Edward Richards, brawd mam. Wedi marw'r tad ym 1930 yn 28 oed pan oedd Gwilym yn ddwy a hanner ac Averinah yn chwe mis, bu mam a'i chwiorydd yn cynorthwyo Anti Lisi i'w magu. Ym 1938 symudwyd i fyny i Gaerglwyddes a hynny'n golygu taith bellach i gapel Soar, Pensarn, ar brynawn Sul, ac i Ysgol Tal-y-bont. Roedd y Parchedig Fred Jones yn arwr i'r fam a'i phlant a bu'n gefn cadarn iddyn nhw mewn cyfnod llwm a thlawd.

Gan fod Harri Evans wedi dweud fod Gwilym yn hynod alluog nid rhyfedd iddo basio'r arholiad i Ysgol Ramadeg Ardwyn yng nghwmni John Morris, Gwyn Jones a Gwilym Jenkins – yr unig un sy'n goroesi. Cyfaill da arall i Gwilym oedd Hywel Jenkins, Gwedd Ynys, Taliesin. Disgleiriodd Gwilym wrth astudio mathemateg, cemeg a ffiseg ac wrth chwarae rygbi a'r un oedd yr hanes yng Ngholeg Aberystwyth lle bu'n chwarae yn yr un tîm a'r enwog Gilbert Parkhouse, cricedwr medrus tîm Morgannwg wedyn.

Ar ôl ennill gradd anrhydeddus yn ffiseg a threulio tair blynedd yn cyflawni'r Gwasanaeth Cenedlaethol, dechreuodd Gwilym weithio i gwmni adnabyddus Tootal ym Manceion, yn Ionawr 1952. Addolai yng nghapel yr Annibynwyr Cymraeg Chorlton Road a chyn bo hir fe'i hetholwyd yn ddiagon a thrysorydd. Yn y Ganolfan Gymraeg cyfarfu â Myra o Gwm Penmachno a phriododd y ddau ym Medi 1958 a minnau wedi mynd yno ar y trên gydag Anti Lisi ac Averinah.

Wedi derbyn swydd dda yng ngwaith Gwydr Pilkington, Llanelwy, a gweithio yno hyd ei ymddeoliad, symudwyd i'r Rhyl a byw yn yr un tŷ am 60 mlynedd! Cyn bo hir ganed Gerallt, sy'n athro yn Ysgol y Berwyn, Bala, ac yn byw yng Nghorwen, ac Eleri sy'n athrawes yn Ysgol Gartholwg (Rhydfelen gynt), Pontypridd. Bu'r teulu'n aelodau selog a gweithgar yng nghapel Annibynnol Carmel y Rhyl lle bu Gwilym yn ddiagon, cyn iddo gau. Gan fod Myra wedi'i magu'n eglwysreg symudwyd i Eglwys Gymraeg y dref, ac wedi iddi hithau gau, addolwyd yn Eglwys Henllan.

Roedd Gwilym yn un annwyl yn ein teulu ni, yn 'feunyddiol fonheddig', ac yn wr cymeradwy gan ei gydweithwyr a'i gyfeillion. Roedd yn genedlgarwr cadarn ac yn gresynu o weld cyflwr Bedd Taliesin a welai bob dydd wrth fynd i'r ysgol, ac yn siomedig nad oes neb wedi diogelu'r llecyn. Wrth ddiolch am Gwilym a'i lafur ein cofion at Gerallt, Eleri, Averinah a'u teuluoedd.

W. J. Edwards

Y LLEW GWYN TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Croesawyd Ruth Jên, Tal-y-bont, i'r cyfarfod ar brynawn Mawrth, 14 Mawrth yn festri capel Rehoboth, a theitl ei sgwrs oedd 'Menywod Cymreig'. Wrth ddangos inni sut mae'n mynd ati i greu'r lluniau o ferched Cymreig eglurodd Ruth sut y cafodd y syniad, a hynny ar ôl iddi gael gwahoddiad i ddangos ei gwaith ochr yn ochr â dwy o artistiaid eraill yn Oriel y Bont, Aberystwyth yn 2010. Gwnaeth ymchwil i sut roedd menywod Cymreig wedi cael eu portreadu ar hyd y canrifoedd, a sylwodd fel roedd gwragedd yn eu gwisg Gymreig yn cael eu portreadu ar gardiau post yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg wrth eu gorchwylion bob dydd, un ai yn gwau, gwehyddu neu yfed te. Penderfynodd Ruth ychwanegu ychydig o hiwmor i'w darluniau o fenywod drwy gynnwys llinellau o lôn gwerin a thraddodiadau Cymreig i gydfynd â'r sefyllfa yn y darlun. Erbyn hyn mae'r lluniau yn boblogaidd iawn ac yn cael eu gwerthu i bob rhan o'r byd. Roedd pawb wedi mwynhau ei chyflwyniad yn fawr iawn, a diolchwyd i Ann Jenkins ac Ann Jones am barato'r te a chacennau ar y diwedd.



Cymdeithas Sioe Tal-y-bont

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Sioe ar nos Lun 6 Mawrth yn y Neuadd Goffa. Croesawyd pawb gan y cadeirydd, ac fe gafwyd adroddiad manwl a llewyrchus gan y swyddogion. Diolchodd Dafydd i bawb am gefnogaeth dros y ddwy flynedd bu'n gadeirydd ac fe ddymunodd yn dda i'w olynydd Susan Rowlands. Llywyddion y Sioe eleni yw David a Dilys Morgan, Alltgoch.

Etholwyd y Swyddogion a ganlyn am 2017:

Cadeirydd: Susan Rowlands, Eglodd.

Is-gadeirydd: Enoc Jenkins, Tyngraig.

Trysorydd: Helen Ovens, Crud yr Awel, Taliesin.

Trysorydd Cynorthwyl: Howard Ovens, Frondirion.

Ysgrifenyddes Gyffredinol: Janet Jones, Llwynglas.

Ysgrifennydd y Babell: Aeron Edwards, Dolpark, Llanilar.

Rheolwr y Maes: Emyr Davies, Llety Ifan Hen.

Cyfarwyddwr y Sioe: Ar ôl 28 mlynedd o wasanaeth ffyddlon, mae Teulu Bryngwynmawr wedi penderfynu rhoi'r gorau i fod yn Gyfarwyddwyr y Sioe Tal-y-bont. Bu'r teulu yn hynod gefnogol i'r Sioe ar hyd y blynyddoedd ac fe hoffai'r Pwyllgor ddiolch yn ddiffuant iddynt am eu hymroddiad a'u holl waith. Mae'r Pwyllgor am fynd ati i geisio llenwi eu hesgidiau cyn y Sioe nesaf, felly os oes gan unrhyw un diddordeb mewn dod yn Gyfarwyddwyr, mae croeso i chi gysylltu â Janet Jones (01970 832293) neu un o'r swyddogion am sgwrs anffurfiol.

Bydd y Sioe yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn 26 Awst ar gaeau'r Llew Du drwy ganiatâd caredig Teulu Richards, Glanleri. Os hoffech stiwardio yn y Sioe byddai'r swyddogion yn falch iawn o glywed gennych. Mae croeso i unrhyw un ymuno a ni yn ein pwyllgorau sy'n cael eu cynnal ar y nos Lun cyntaf bob mis, yn y Neuadd Goffa am wyth o'r gloch.

Busnesa

Y bwriad tro hyn yw talu sylw i gwmni sy' wedi hysbysebu'n gyson yn y papur sef James Memorials. Perchennog y cwmni yw Paul James a fu'n byw yn Eglwysfach am gyfnod hir. Ar ôl gadael ysgol nod Paul oedd hyfforddi fel saer coed ond ar gyngor ei dad penderfynodd ddysgu i fod yn saer maen gan arbenigo yn y grefft o lunio cerrig beddau. Busnesau



Paul James

teuluol a arferai wneud y gwaith gan gadw'r grefft ac yn arbennig cyfrinachau'r grefft o fewn y teulu. O un i un daeth y busnesau bychain hyn i ben gan adael bwlch yn y ardal a chreu cyfle.

Teithiodd Paul i Gaerffili i dderbyn hyfforddiant gan dreulio blwyddyn yno yn dysgu sut i drin y cerrig beddau a sut i naddu'r geiriau ar y garreg. Bryd hynny, tua deng mlynedd ar hugain yn ôl, fe wnaed y cyfan gyda morthwyl a chain gan dorri'r geiriau a'r neges o un llythyren i'r llall. Ar ôl dysgu dychwelodd adref gan gychwyn fel band un dyn yn yr iard tu ôl i'r tŷ ac yn araf tyfodd y busnes gan ddibynnu'n llwyr bron ar gymeradwyaeth bersonol. Bellach mae'r cwmni'n cyflogi saith o weithwyr ac fe ddisodlwyd y morthwyl a'r gain gan beiriannau a chyfrifiaduron.

Yr un mor bwysig â dysgu'r grefft oedd dysgu sut i drin pobl. Mae'n adeg anodd i gwsmer a rhaid trafod yn amyneddgar a gyda chydymdeimlad. Cyngor Paul bob tro yw cadw'r beddargraff yn syml – lleiaf i gyd, gorau gyd yw ei arwyddair. Nodir y manylion ar gyfrifiadur gyda'r teulu wedyn yn derbyn patrwm ar bapur. Gwiro'n ofalus am unrhyw gamgymeriad ac os yw pawb yn fodlon mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen. Yn naturiol Cymraeg a Saesneg yw'r ieithoedd arferol ond mae'r cwmni hefyd wedi llunio beddargraff yn Sbaeneg a sgript Arabaidd. Erbyn heddiw gellir gosod lluniau a delweddau ar y garreg – ci defaid neu gasg er enghraifft – ond weithiau rhaid cynghori yn erbyn dymuniadau teuluol. Mae Paul hefyd yn ymwybodol o reolau mynwentydd ar yr hyn sy'n dderbyniol a beth sy' ddim.

O ran y garreg ei hun mae gan y cwsmer dau ddewis sef gwenithfaen (granite) neu lechen. Fe ddaw'r wenithfaen o China neu India – oll bron yn ddu neu goch borffor. Mae carreg wen ar gael ond prin y gwelir rhain bellach gan nad ydynt yn treulio'n dda mewn tywydd gwlyb gan gyflym golli lliw. Wrth gwrs y lechen Gymreig sy'n gwisgo orau a hon hefyd yw'r garreg ddrutaf. Mae'r lechen a ddefnyddir gan Paul wedi'i thorri a'i thrin yng Nghorris ond wedi'i chloddio'n wreiddiol yn Blaenau Ffestiniog. Am liw y geiriau mae gan y cwsmer eto ddau ddewis –paent aur neu arian – gyda'r ail yn well, eto am resymau hinsawdd.

Ar derfyn cwblhau'r dasg o lunio'r garreg rhaid wedyn ei gosod yn ei lle ac yn hyn o beth mae'r cwmni gweithio dros ardal o rhyw ddeng milltir ar hugain. Weithiau rhaid teithio 'mhellach ac mae Paul

yn cofio treulio tridiau ar Ynys Wyth i osod carreg. Fel y soniwyd, agwedd bwysig yw rheolau mynwentydd ac yn neilltuol yr hyn a ganiateir o ran iechyd a diogelwch. Ffactor arall yw cynnal a chadw ac yn amlach na pheidio beth sy'n dderbyniol yw carreg yn sefyll ar i fyny heb forderi nag ymylon.

A beth am effaith y symudiad tuag at amlogsi? Yn ôl Paul ar ddechrau ei yrfa y patrwm oedd saith deg y cant claddedigaethau a thri deg y cant amlogfa – erbyn heddiw mae'r patrwm wedi newid yn llwyr gydag ond tri deg y cant yn gladdedigaethau. Doedd dim dewis ond ymateb ac mae 'na alw o hyd i lunio placiau bychain a osodir mewn amlogfa neu yng ngardd goffa o fewn ffiniau mynwent. Ceir un o'r gerddi hyn ym mynwent gyhoeddus Tâl y Bont ac ym marn Paul mae'r gerddi yn gyfuniad o amlogsi a chladdu ac yn cynnig man cyswllt i'r teulu ar ôl marwolaeth.

Er mai cerrig beddau yw prif waith y busnes mae'r cwmni hefyd yn cerfio enwau tai a phlaciau i nodi agor adeilad. Dwy agwedd arall yw gwerthu dodrefn gardd gwenithfaen ac ailgylchu slabiau llechen – er enghraifft gweithio ar ddarn a fu unwaith yn garreg aelwyd a'i saernio i fod yn sylfaen i stof goed. Mae'r lechen Gymreig yn gydol werthfawr ac yn para byth.

O ystyried natur y busnes mae'n rhyfedd efallai i glywed Paul yn datgan fod ganddo awch at y gwaith. Mae'n rhoi pwyslais ar ddenu a chadw staff o safon gyda rhai yn dysgu a meistrolu'r grefft fel y gwnaeth yntau. Ie, rhyfedd o bosib ond dylid cofio fod y cwmni'n cynnig gwasanaeth personol ar adeg anodd ac mewn amgylchiadau trist – gwasanaeth y mae'n rhaid i bawb droi ato hwyr neu hwyrach.

GIE

Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

argraffu da am bris da
ylolfa
holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 **www.yloffa.com**

Etholiad Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Dydd Iau Mai 4 2017



Hyseddwyd gan Ellen ap Gwynn, Garryn Wyn, Tal y Nod, Ceredigion

Ellen ap Gwynn	X
Rhian Evans	X
Bleddyn Huws	X
Enoc Jenkins	X
Megan Mai	X



Pencampwriaeth Cneifio'r Byd



Braint ac anrhydedd oedd hi i mi i gael fy newis gan Bwyllgor y Sioe Frenhinol i gynrychioli Cymru fel beirniad ym Mhencampwriaeth Cneifio'r Byd yn Invercargill, Ynys y De, Seland Newydd rhwng yr 8fed a'r 11eg o Chwefror eleni. Cynhelir y digwyddiad yma bob tair blynedd o amgylch y byd.

Eleni roedd 32 o wledydd yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth sef y nifer mwyaf erioed. Roedd hawl gan bob gwlad i anfon tîm o 6 o gystadlewyr, 2 i drafod gwlan, 2 i gneifio â gwellau a 2 i gneifio â peiriant. Braf oedd cael bod yn rhan o'r digwyddiad pwysig yma.

Roedd lleoliad y gystadleuaeth sef Stadiwm yr Ilt, Invercargill yn le anhygoel i gynnal y gystadleuaeth gyda hyd at 6 mil o gefnogwyr yn gwyllo. Yn ogystal cafodd y digwyddiad ei weld ar draws y byd yn fyw ar y wê.

Ar ddiwedd y cystadlu brwd dyfarnwyd Seland Newydd yn Bencampwyr y Byd. Cafodd un aelod o dîm Cymru y 4ydd safle wrth drin gwlan ac fe ddaeth y tîm cneifio peiriant yn 5ed.

Tra allan yno manteisiais i a Marion ar y cyfle i deithio o amgylch Ynys y De lle buom yn ymweld â llawer o ffermydd mawr a oedd yn cael eu galw yn 'stations' a golygfeydd godidog yr ardal. Cawsom groeso cynnes iawn gan bawb.

Roedd y daith yn un i'w chofio ac roedd yn brofiad bythgofiadwy. Gobeitho y cawn y cyfle i ymweld â'r wlad eto rhyw ddiwrnod.

Cystadleuaeth Ffotograffiaeth y Gaeaf ar S4C HENO

Mae byd natur yn rhyfeddol o ran y patrymau, delweddau, gweadiadau, a'r amryw liwiau sy'n bodoli a'r wyrth yw eu bod o'n cwmpas yn ddyddiol ond i ni fod yn sylwgar – a chael camera wrth law i gofnodi yr hyn 'rydym yn eu weld.

Wedi Clywed bod cystadleuaeth HENO ar S4C yn gofyn an luniau ar y thema Gaeaf, dyna droi fy meddwl at ddelweddau sy'n cyfleu oerni a moelni noeth sy'n rhan anatod o'r tymor. Rydw i'n hoff iawn o dynnu lluniau 'macro', sef lluniau agos iawn o'r gwrthrych, a dyna beth dynnodd fy llygaid wrth gerdded ar hyd y Figyn yn Nhaliesin un bore rhewlyd, a sylwi ar brydferthwch gwe pry copyn yn y weiren bigog. Camera bach SONY sy' gen i ond mae'n eithriadol o dda am dynnu lluniau yn gyffredinol ac yn enwedig yn agos at y gwrthrych. Felly, dyma gydio yn y camera – llun syml o'r gwe pry copyn wedi rhewi hefo coed noeth yn y cefndir yn rhoi'r dimensiwn dyfnach o foelni'r gaeaf.

Feddyliais i ddim am eiliad bod y llun yn mynd i ddal sylw y beirniad a chefais syndod o'r mwya i glywed y newyddion fy mod wedi ennill y gystadleuaeth, allan o dros 500 o luniau! Diolch yn fawr iawn i HENO, rydw i newydd dderbyn yr ipad newydd, smart iawn! Mae'n profi un peth – does dim rhaid cael camera drud, ond mae'r ddawn o weld a sylwi ar y pethau bychain o'n cwmpas yn medru bod yn wirioneddol hardd – a chreu argraff mewn Cystadleuaeth y tro hwn! *Beti Wyn*



James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Bistro Gannets

Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi

Bocses a bubblewrap ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk

Ffôn: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

Wales REMOVALS
www.midwalesremovals.co.uk

INVESTORS | BUILDING FOR THE FUTURE

Dod i nabod...

Dewi Jenkins, Tynygraig yn dilyn ei lwyddiant ysgubol yn actio Dai Jones yng nghystadleuaeth 'Cynulleidfa gyda...' Cffi Cymru

Beth sy ar y gweill gen ti ar ôl dy lwyddiant mawr yn Mhort Talbot?

Adre ar y fferm. Maen adeg prysur o'r flwyddyn gyda'r gwanwyn wedi cyrraedd ac yng nghanol tymor yr wyndda lloia.

Beth yw dy atgof cyntaf?

Fy atgof cyntaf yw mynd i Glwb Ffermwyr Ifanc am y tro cyntaf ar nos Fawrth ac y nos Sadwrn wedyn bod ar lwyfan yr CFFI yn Eisteddfod Sir yn perfformio mewn sgats efo Geraint Cerrigaranau ac Aled Llyr gyda'r tri ohonom yn noeth ar lwyfan! Son am gael fy nhafu fewn i'r pen dwfn!

Be sy'n dy wneud yn hapus?

Gweld Aelodau ifanc newydd yn ymuno â'r Ffermwyr Ifanc ac yn dod â llywyddiant mawr i'r clwb fel y profwyd yn yr Eisteddfod eleni ac yng Nghystadleuaeth Adloniant y sir.

Beth sy'n dy wylltio?

Pobol syn gallu siarad yr iaith Gymraeg yn iawn ond yn mynnu siarad Saesneg.

Oes dyfodol i bobl ifanc yng Nghefn Gwlad?

Oes yn sicr.

Hoff beth am fyw yn Nhal-y-bont neu yn ardal Papur Pawb?

Y gymuned glos sydd efo ni yma yn Nhal-y-bont. Yn fy marn i mae efo ni un o'r sioeau lleol gorau yn y wlad. Criw arbennig o bobol sy'n tynnu at ei gilydd ac yn cynnal sioe arbennig gyda rhywbeth at ddant pawb, ac mae hyn yn glod i'r pwyllgor ac i bawb sydd ynghlwm wrth y sioe. Mae hyn hefyd yn wir am y ffermwyr ifanc, mae'r gefnogaeth rydym yn ei gael oddi wrth cyn aelodau, rhieni a ffrindiau yn wych mewn cystadleuthau fel y Rali, Eisteddfod a'r hanner awr o adloniant. Ni fyddem yn cael llywyddiant oni bai am y cymorth yr ydym yn ei dderbyn oddi wrth y bobol yma.

Beth wyt ti'n hoffi ei wneud i ymlacio?

Yn fy amser sbâr, dwi wrth fy modd yn dysgu cwn defaid. Mae'n dipyn o her a mae eisiau dipyn o amynedd! Ond mae cael ci da werth y byd ac yn amrhisadwy.

Llysgennad i'r Coleg Cymraeg

Mae unigolyn ifanc brwdfrydig yn ein hardal yn gwneud gwaith pwysig fel Llysgennad i'r Coleg Cymraeg yn hyrwyddo manteision astudio trwy gyfrwng y Gymraeg i ddarpar-fyfyrwyr Cymru. Mae Gwenno, sy'n byw yn Fferm Tanllan, Llangynfelyn, yn astudio Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid ym Mhrifysgol Aberystwyth. Prif rôl Gwenno Mason Evans fydd ceisio dwyn perswâd ar ddisgyblion ysgol i ddilyn rhan o'u hastudiaethau prifysgol trwy'r Gymraeg a chyflwyno'r manteision a ddaw yn sgîl hynny.

Bydd yn cynrychioli'r Coleg Cymraeg mewn ymweliadau ysgolion, ffeiriau UCAS ac Eisteddfodau yn ogystal ag yn cofnodi eu profiadau mewn blog sy'n agor cil y drws ar fywyd myfyrwyr Cymraeg ein prifysgolion.

Llais y Llysgennad yw enw'r blog sy'n rhoi darlun o fywyd myfyrwr cyfrwng Cymraeg ar ffurf lluniau, fideos a llawer mwy.



Eirian Evans, trysorydd Cangen Merched y Wawr, Tal-y-bont a'r cylch, a Trish Huws yn cyflwyno sic o £283, casgliad y gwasnaeth Nadolig cymunedol, i gynrychiolwyr yr elusen Llyfrau Llafar Cymru y tu allan i'w canolfan yng Nghaerfyrddin.



Dechrau Mawrth, daeth criw'r rhaglen gomedi boblogaidd 'Run Sbit i Dal-y-bont i ffilmio ger y patsyn glas. Yn eu plith oedd seren y sioe, Linda Brown. Darlledir y gyfres newydd ar S4C cyn bo hir.

Y Gair Olaf

Mae'r gair 'arallgyfeirio' wedi dod yn boblogaidd ar leferydd llawer ohonom, yn amlach na dim gyda ffermwyr. Felly dyma ni'n edrych beth arall allwn ni wneud heblaw ffermio gwartheg a defaid.

Gan fod Nant y Gwyddil heb sychu yn fy oes i, dyma ni'n ymchwilio i'r posibilrwydd o greu trydan drwy dyrbin dŵr. Un o hanfodion y cynllun yw cors wleib ac roedd hynny gennym ar y banc. Mae'r gors yn storfa dda o ddŵr pan mae'n glawio ac yn storio llawer ohono ar gyfer cyfnod sychach. Aethpwyd ati i greu argae rhyngom ni â banc Argoed ryw 4½ troedfedd o uchder a rhyw 9-10 troedfedd o hyd. Mae'r dŵr wedyn yn llifo dros yr argae a thros haenen o ddur gloyw. Yna mae'n disgyn 124 metr uwchlaw'r môr i bwerdy bychan gan droi tyrbin 15 kw cyn llifo allan i'r nant lle y daeth ohono ac yna i'r afon Leri. Gosodwyd cebl dan ddaear o'r tŷ i'r pwerdy er mwyn derbyn y pŵer ac agorwyd ffos i gladdu'r beipen..

Prynwyd 'transformer 3 phase' a'i osod yn lle un 'single phase' ar y lein i'r tŷ. Adeiladwyd pwerdy deg troedfedd sgwâr o amgylch y tyrbin gyda wal ddwbl wedi'i insiwleiddio. Gosodwyd llechi ar y to ac fe'i hamgylchynwyd â cherrig. Cysylltwyd y cyfan gan drydanwyr proffesiynol.

Yna buom yn gwyllo'r glaw yn disgyn. O fis Hydref 2015 hyd fis bach 2016 roedd y tyrbin yn troi yn ddi-baid bob dydd a minnau'n gwenu bob dydd. Mae'n debyg mai rhagolygon y tywydd mis nesaf yw am law trwm ar adegau ac ambell ysbaid o heulwen. Bendigedig!

Dafydd Jenkins, Penpompren Uchaf

CHWARAEON

Ymlaen i'r Ffeinal

Ar ddiwrnod cyntaf Ebrill, mewn gêm gyffrous ar Gae'r Odyn Galch, llwyddodd bechgyn Tal-y-bont i ennill eu lle yn rownd derfynol Cwpan Len a Julia Newman drwy drechu eilyddion Prifysgol Aberystwyth o bedair gôl i dair.

Cyn y gêm, anafodd gôl-geidwad Tal-y-bont, Jamie Barron, ei law, a bu raid i'r blaenwr Jamie Evans gymryd ei le ar fyr rybudd. Aeth Tal-y-bont ar y blaen yn gynnar yn y gêm drwy Callum Pritchard ac wedi cyfnod o bwysu gan y myfyrwyr, sgoriodd Barri Southgate yr ail ar ôl symudiad da ar hyd yr asgell dde. Tarodd y myfyrwyr yn ôl cyn yr egwyl a sgorio eto yn gynnar yn yr ail hanner i unioni'r sgôr.

Aeth Tal-y-bont yn ôl ar y blaen gydag ergyd nerthol gan Niall Coleridge ond wedi blerwch yn yr amddiffyn, daeth y myfyrwyr yn gyfartal unwaith eto. Roedd yn amlwg nad oedd yr un o'r ddau dim yn awyddus i chwarae hanner awr o amser ychwanegol wrth iddynt fynd am y gôl a fyddai'n dod â'r fuddugoliaeth. Daeth honno gyda phum munud yn weddill pan reolodd Barri Southgate y bêl tua phum llathen y tu allan i'r cwrw cosbi, troi yn sydyn, a tharo ergyd hyfryd i gefn y rhwyd.

Llongyfarchiadau i'r tîm. Mae'n debyg y chwaraeir y ffeinal ganol Mai a byddwn yn cyhoeddi'r manylion yn rhifyn nesaf *Papur Pawb*.



Amddiffynwyr Tal-y-bont yn dal eu tir yn wyneb ymosodiad gan y myfyrwyr.


Clwb Bowlio Morfa Mawr

Beth am roi cynnig ar fowlio? Mae'n gêm dda, ac rydych mewn ardal ddelfrydol i fentro arni am y tro cyntaf. Mae'n gamp sy'n addas i unrhyw un beth bynnag eich oed – o blant saith oed i oedolion saith deg oed, yn abl neu'n anabl. Gall oedolion, bechgyn a merched gymryd rhan am ychydig o hwyl ac ymarfer corff ysgafn, neu os ydych yn fwy cystadleuol mae pob cyfle i gymryd y gamp yn fwy difrifol. Mae'n medru bod yr un mor gystadleuol â phêl-droed, criced, rygbi, neu unrhyw gamp arall.

Mae Clwb Bowlio'r Morfa Mawr yn chwarae ar lain allanol; rydym yn glwb cyfeillgar gydag aelodaeth gymysg o ddynion a menywod. Mae'r tymor chwarae yn ymestyn o fis Ebrill hyd at fis Medi, ac mae'r Clwb yn chwarae gemau yn erbyn clybiau eraill – gall rhain fod yn gemau cyfeillgar, yn gemau cynghrair, neu'n gemau cwpan i ddynion, merched neu dimau cymysg. Rydym hefyd yn cynnal cynghrair fewnol a chystadlaethau Clwb yn ystod y tymor.

Rydym yn croesawu aelodau newydd o bob oed, yn ddechreuwr neu'n fowlwr profiadol sy'n chwilio am glwb newydd.

Am fanylion pellach cysylltwch gyda Richard Huws ar e-bost rehuws@aol.com / neu 01970 832566



Mae Anna Davies, Maes-y-deri, Tal-y-bont, ar hyn o bryd yn treulio cyfnod o dri mis yn Nepal. Mae Anna yn cynorthwyo'r brodorion lleol mewn pentref yno i adeiladu llyfrgell ysgol newydd. Dyma hi yn cludo bwced ar ei phen.

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553



Bwyd da... Cwmni da!

BLACK LION HOTEL

yBlac

01970 832 555
croeso@yblac.co.uk